Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
CYP(4)-09-11 Papur 2
Tystiolaeth gan UCAC

UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

## Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tachwedd 2011

**UCAC** | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

# Ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymchwiliad hwn gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, ac yn ddarlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei bencadlys yn Aberystwyth, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

1. **Pa effaith y mae'r broses o weithredu *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* wedi'i gael hyd yn hyn ar bobl ifanc 14-19 oed? A oes gan bobl ifanc fwy o ddewis o gyrsiau academaidd a galwedigaethol o ganlyniad i'r Mesur?**

   Yn sicr mae mwy o ddewis o gyrsiau a chymwysterau o ganlyniad i weithredu'r Mesur Dysgu a Sgiliau, yn enwedig o ran cyrsiau a chymwysterau galwedigaethol.

2. **A oes gan ddisgyblion Cymraeg yr un ystod o ddewis?**

   Mae hyn yn amrywio. Ar y cyfan, mae sefydliadau'n llwyddo i gynnig ystod digon eang i ateb gofynion y Mesur, ond nid yw'r ddarpariaeth o reidrwydd mor eang â'r hyn sydd ar gael i ddisgyblion cyfrwng Saesneg.

   Mae'r sefyllfa'n gwella o ran yr ehangder dewis, ond mae'n frwydr barhaol i oresgyn anawsterau. Yr anhawster pennaf yw'r diffyg partneriaid sy'n gymwys i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg (gwendid darpariaeth Colegau Addysg Bellach a'r sector breifat) neu'r pellteroedd daearyddol i'r partneriaid cymwys agosaf. Mae costau sylweddol ynghlwm wrth oresgyn y problemau hyn.

3. **Os yw'r Mesur wedi arwain at gael mwy o ddewis o gyrsiau academaidd a galwedigaethol, a yw hyn wedi cael effaith anfwriadol ar bynciau eraill, er enghraifft ieithoedd modern?**

   Yn naturiol, mae ehangu'r dewis o gyrsiau wedi cael effaith ar rai pynciau gan fod yr un nifer o fyfyrwyr yn cael eu dosbarthu dros nifer fwy o bynciau. Mae ysgolion â llai na 1,000 o ddisgyblion yn arbennig yn ei chael hi'n anodd cynnig niferoedd digonol o gyrsiau mewn modd cost-effeithiol, oni bai eu bod wedi buddsoddi mewn cyfleusterau er mwyn darparu ar y safle (cyfleusterau adeiladwaith, trin gwallt ac ati).

   Mae'r grwpiau mewn rhai pynciau wedi lleihau yn sylweddol, ac mewn mannau mae'r niferoedd mor fach fel ei bod hi'n anodd cyfiawnhau cynnig pwnc penodol o gwbl. Y pynciau 'mwy traddodiadol' sy'n dioddef ar y cyfan; mae ieithoedd tramor modern yn dioddef mewn modd cyson, ac mae pynciau eraill yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

   Mae'r broblem hon ar ei gwaethaf mewn ysgolion dwy-ffrwd, ble mae niferoedd disgyblion yn cael eu rhannu rhwng ffrwd Saesneg a ffrwd Gymraeg i greu grwpiau bychain iawn.

4. **A yw'r broses o weithredu *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* wedi cael unrhyw effaith ar nifer y bobl ifanc 16 oed sy'n dewis aros mewn addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd eu haddysg orfodol?**

   Mewn rhai sefydliadau, nid yw'r niferoedd yn syfrdanol, ond mae awgrym fod y dewis ehangach o gyrsiau wedi bod yn ffactor i ddenu rhai i aros ymlaen mewn ysgolion tu hwnt i'r oedran gorfodol - ond mae'n anodd mesur.

   Mewn sefydliadau eraill, mae'r newid wedi bod yn llawer mwy trawiadol; mae'r sefydliadau hynny'n dueddol o fod yn fwy o faint, ac yn gallu cynnig darpariaeth ehangach ar y safle.

5. **Pa broblemau ymarferol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw er mwyn gweithredu'r Mesur? A oes problemau gweithredu er enghraifft:**

- **mewn ardaloedd gwledig:**
  Mae'r pellter rhwng ysgolion a cholegau'n creu problemau ymarferol a chyllidebol mewn ardaloedd gwledig; mae cludo myfyrwyr o un sefydliad i'r llall yn gost sylweddol i ysgolion a cholegau ac yn gallu mynd â thipyn o amser o'r diwrnod addysgu. Mae'r grant 14-19 wedi bod yn gwbl hanfodol i sicrhau'r drafnidiaeth angenrheidiol i allu ehangu'r ddarpariaeth. Nid yw'n anarferol i ysgolion orfod trefnu bysus, bysus mini a hyd yn oed tacsis ar gyfer dysgwyr, gan nad yw cludiant cyhoeddus yn hwylus o ran amseroedd teithio neu'r mannau y mae'n gwasanaethu.

- **mewn perthynas â'r ddarpariaeth o 30 o raglenni dysgu o leiaf, gan gynnwys pum dewis galwedigaethol, gan awdurdodau lleol + cyflenwi cwricwla ar gyfer ardaloedd lleol:**
  Mewn ardaloedd dinesig nid yw hyn yn ormod o broblem; mae'r cydweithio rhwng sefydliadau yn gallu bod yn ddigon effeithiol, yn enwedig mewn ardaloedd ble mae cefnogaeth gref gan yr Awdurdodau Lleol (e.e. Cynnal yn y gogledd), ond mae'n sicr yn anoddach mewn ardaloedd gwledig, am y rhesymau a amlinellwyd uchod. Yn gyffredinol, mae'n deg i ddweud bod teimlad bod 30 yn uchelgeisiol, ac o bosib, braidd yn ormodol; nid oedd angen pennu 30 er mwyn ehangu'r ddarpariaeth, ac i sicrhau isafswm o gyrsiau galwedigaethol. Mae wedi bod yn her aruthrol i nifer fawr o sefydliadau.

- **sut y bydd disgyblion yn dysgu (gan gynnwys defnyddio TG a dysgu o bell):**
  Mae datblygiadau positif wedi bod o ran e-ddysgu yn sgil gweithredu'r Mesur, ac mae angen iddo barhau i ddatblygu; unwaith eto mae rôl Awdurdodau Lleol yn hynod o bwysig.

  Profiad athrawon yw bod fideo-gynadledda'n opsiwn effeithiol ar gyfer disgyblion ôl-16 ac yn enwedig os yw'r sesiynau fideo-gynadledda wedi'u cyfuno gyda sesiynau wyneb-yn-wyneb rheolaidd hefyd.

  Mae sesiynau o hirbell yn anoddach gyda'r grŵp oedran 14-16. Os oes angen aelod o staff i ofalu am y disgyblion yn yr ystafell fideo-gynadledda, tra bod yr athro/darlithydd yn dysgu o bell, mae cwestiynau'n codi ynghylch y defnydd effeithiol o adnoddau dynol; ond fel arall mae ysgolion yn gallu wynebu baich disgyblaethol yn sgil sesiynau fideo-gynadledda.

  Agwedd arall o ddysgu o hirbell yw mai darparwyr preifat sydd yn aml yn cyflenwi, ac mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n prynu'r ddarpariaeth fod yn hyderus o'r ansawdd a gallu delio gydag unrhyw broblemau sy'n codi yn y cyd-destun hwn.

- **materion trafnidiaeth a theithio:**
  Gweler uchod; mae hyn yn achosi problemau gwirioneddol mewn ardaloedd gwledig.

  Unwaith eto, mae gwahaniaeth yn y grwpiau oedran. Gyda grwpiau ôl-16 nid oes problem o ran disgyblaeth, nac ymdopi gyda sefydliad o bosib gwahanol iawn i'w sefydliadau eu hunain. Ond gyda'r garfan 14-16, yn aml mae angen aelod o staff i gyd-deithio gyda'r disgyblion o safbwynt disgyblaeth, ond hefyd o ran diogelwch ac ymgyfarwyddo â'r sefydliad newydd. Unwaith eto, mae'r cwestiwn o'r defnydd effeithiol o staff yn codi.

  Mewn ardaloedd dinesig mae'n fwy cyffredin i ddisgwyl i staff deithio o safle i safle (yn hytrach na'r myfyrwyr), ac rydym yn gweld problemau'n codi yn y maes hwn hefyd. Yn aml nid oes digon o amser yn cael ei ganiatáu ar gyfer y teithio (problemau traffig, anawsterau parcio, cyrraedd yr ystafell ddosbarth/darlithfa pen draw'r daith) ac mae'n gallu rhoi straen annheg a diangen ar staff. Mae enghreifftiau o staff yn colli amser egwyl neu amser cinio am eu bod yn teithio o un safle i'r llall.

- **unrhyw faterion eraill?**
  (a) Rydym yn ymwybodol bod yr angen i ddelio gyda darparwyr preifat yn rhoi baich biwrocrataidd ar ysgolion; rhaid iddynt ymdrin â materion cytundebol anghyfarwydd nad oes ganddynt yr arbenigedd i

ddelio'n effeithiol ac yn hyderus â nhw. Yn ogystal, mae prynu cyrsiau mewn gan ddarparwyr preifat, gan gynnwys Colegau Addysg Bellach, yn gallu bod yn aruthrol o gostus.

(b) Mae problem anferth ar y gorwel; bydd toriad o 12% i gyllidebau 14-19 o fis Ebrill 2012, a thoriad pellach o 7% o fis Ebrill 2013. Hynny yw, toriadau o bron 20% dros ddwy flynedd. Anodd yw dychmygu sut y bydd modd cwrdd â gofynion y Mesur dan yr amgylchiadau cyllidebol hynny.

(c) Mae rhai ysgolion wedi adrodd eu bod nhw'n teimlo nad yw eu hymdrechion i ehangu'r ddarpariaeth wedi cael eu cydnabod, ac yn arbennig felly yn y system bandio newydd. Y rheswm am hynny yw bod y system bandio'n cymryd **Trothwy Lefel 2 +** fel maen prawf (sef 5 TGAU neu gymhwyster cyfwerth, gradd C neu uwch, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg), ble mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau yn cymryd **Trothwy Lefel 2** (sef 5 TGAU neu gymhwyster cyfwerth, gradd C neu uwch, *mewn unrhyw gymhwyster*). Maent yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwobrwyo mewn unrhyw ffordd am eu hymdrechion i ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys cyrsiau a chymwysterau galwedigaethol. Mae hyn yn wir hefyd am elfen arall o'r system bandio, sef y defnydd o'r Sgôr Pwyntiau wedi capio (= yr 8 TGAU neu gymhwyster cyfwerth orau) yn hytrach na'r Sgôr Pwyntiau ehangach – sgôr sydd wedi codi lot mewn ysgolion sydd wedi ehangu'r ddarpariaeth yn fawr, ond nad sy'n cael cydnabyddiaeth felly gan y system bandio.

**6. A yw *Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009* yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob awdurdod lleol?**

Rydym wedi cael ar wybod y bydd angen datblygu a chytuno Cynlluniau 14-19 ar lefel rhanbarthol (consortiwm) o fis Ebrill 2012 ymlaen, yn hytrach nag ar lefel Awdurdod. Mae'n siŵr y bydd manteision ac anfanteision i'r drefn newydd, ond mi fydd yn golygu newid, ac mae cwestiynau ynghylch atebolrwydd yn siŵr o godi e.e. atebolrwydd ariannol; atebolrwydd o ran cwrdd â gofynion y Mesur, atebolrwydd ynglŷn ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

**7. A yw dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu cael budd o ddarpariaethau'r Mesur?**

Mewn ambell achos, mae'r amrywiaeth darpariaeth yn cynnig cyfle i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol aros yn y 6ed Ddosbarth.

Rhagwelwn y bydd y toriadau y sonnir amdanynt yng nghwestiwn 5 uchod yn amharu ar allu'r Mesur i fod o fudd i'r myfyrwyr penodol hyn. Ar hyn o bryd mae prif bwyslais y Mesur yng Nghyfnod Allweddol 4 ar gyrsiau Lefel 2, a llawer fawr iawn yn llai ar gyrsiau Lefel 1; yng Nghyfnod Allweddol 5, mae'r pwyslais ar gyrsiau Lefel 3 yn hytrach nag ar gyrsiau Lefel 2. Ond y lefelau is sydd yn aml yn cynnig y mwyaf o fudd i fyfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn annog myfyrwyr i barhau â'u haddysg y tu hwnt i'r oedran gorfodol. Pan dorrir y cyllid, bydd pob sefydliad addysgol yn canolbwyntio ar gyflawni'r gofynion statudol, a'r sgil-effaith anfwriadol fydd mai cyrsiau ar lefelau is, ac felly'r myfyrwyr sy'n fwy tebygol o adael addysg, fydd yn dioddef. Bydd hyn yn dadwneud llawer o waith da a gyflawnwyd hyd yma.



**UCAC**
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com